**COFNODION Y CYFARFOD**

**Dyddiad:** 20 Tachwedd 2001
**Amser:** 9.00am
**Lleoliad:** Ystafell A3.13

**Yn bresennol:** John Marek, y Dirprwy Lywydd (Cadeirydd)
Andrew Davies, y Trefnydd
Jocelyn Davies, Rheolwr Busnes Plaid Cymru
Jonathan Morgan, y Ceidwadwyr
Peter Black, y Democratiaid Rhyddfrydol

Paul Silk, Clerc y Cynulliad
David Lambert, Ymgynghorydd Cyfreithiol Swyddfa’r Llywydd
Marie Knox, Pennaeth Ysgrifenyddiaeth y Pwyllgorau (eitem 6 ar yr agenda)
Andrew George, Clerc y Pwyllgor Busnes
Marion Stapleton, YP/Y Trefnydd
Adrian Green, Ysgrifenyddiaeth y Siambr
Alun Gruffudd, YP/Y Dirprwy Lywydd
Nerys Arch, Swyddfa’r Cwnsler Cyffredinol (eitem 4 ar yr agenda)

## 1. Ymddiheuriadau a chyhoeddiadau

1.1 Croesawodd y Dirprwy Lywydd Jonathan Morgan a oedd yn cynrychioli William Graham yn unol â Rheol Sefydlog 13.3, cyn bod y Cynulliad yn cymeradwyo ei etholiad i'r Pwyllgor Busnes y prynhawn hwnnw. Darllenodd y Dirprwy Lywydd lythyr oddi wrth William Graham a oedd yn diolch am y cwrteisi a gafodd tra bu’n Aelod o'r Pwyllgor Busnes. Cytunwyd y dylai’r Dirprwy Lywydd ysgrifennu at Mr Graham i ddiolch iddo am ei gyfraniad at waith y Pwyllgor. **Gweithredu: Y Dirprwy Lywydd**

## 2. Cofnodion y cyfarfodydd blaenorol

**BC318-01 (Terfynol)**

2.1 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor. Tynnodd y Dirprwy Lywydd sylw'r Pwyllgor at un newid y cytunwyd arno ond na chafodd ei ymgorffori oherwydd amryfusedd gweinyddol. Byddai'r cofnodion yn cael eu diwygio'n briodol a'u cyflwyno gerbron y Pwyllgor yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**BC326-01 (Drafft)**

2.2 Cyflwynwyd y cofnodion i'r Pwyllgor ar ffurf ddrafft. Am nad oedd unrhyw sylwadau, byddent yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor yn eu ffurf derfynol yn y cyfarfod nesaf. **Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth y Siambr**

**3. Materion sy'n codi (13 Tachwedd 2001 - BC326-01)**

3.1 **Paragraff 3.2** Amlinellodd Nerys Arch y rhesymau dros ddefnyddio'r Weithdrefn Weithredol ar gyfer dau orchymyn. Yn achos y Rheoliadau Gwastraff Arbennig (Diwygio), dywedodd bod 1 Tachwedd wedi'i bennu fel y dyddiad y byddai'r rheoliadau cyfatebol yn dod i rym yn Lloegr, ac nad oedd yn briodol cael trefniadau gwahanol yng Nghymru. Fodd bynnag, roedd toriad yr haf yn golygu nad oedd digon o amser i ddilyn y weithdrefn arferol. Gofynnodd Jocelyn Davies a gafodd y diwydiant ddigon o amser i gydymffurfio â'r ddeddfwriaeth. Dywedodd Nerys Arch bod y rheoliadau wedi'u llunio ar gais y diwydiant er mwyn cyd-fynd â'r arfer presennol. Dywedodd bod angen gweithredu Rheoliadau Cyfyngu Mewnforio ac Allforio (Clwy'r Traed a'r Genau) ar unwaith er mwyn rhoi cyfarwyddeb Ewropeaidd ar waith ar yr hawl i ailddechrau allforio rhai categorïau o gig. Rhoddodd y Dirprwy Lywydd ddiolch i Nerys Arch am ei heglurhad.

3.2 **Paragraff 4.3** Cytunwyd i ystyried Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 a Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001 o dan eitem 4.

3.3 **Paragraff 4.7** Cytunwyd i ystyried Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001 o dan eitem 4.

3.4 **Paragraff 5.1** Cytunwyd i ystyried papur yn amlinellu dewis arall ar gyfer trefniadau'r toriadau yn 2002, o dan eitem 5.

3.5 **Paragraff 11.1** Dywedodd Andrew George ei fod mewn cysylltiad â William Graham i drafod ei bryderon penodol ynghylch trosglwyddo cwestiynau llafar. Dywedodd y byddai meysydd annelwig yn anochel a bod y Swyddfa Gyflwyno yn barod bob amser i gynorthwyo'r Aelodau wrth ddrafftio cwestiynau. Roedd cynsail clir yn cael ei osod bob tro yr oedd Gweinidog yn trosglwyddo cwestiwn. Tan hynny, pe bai unrhyw ansicrwydd byddai'r Swyddfa Gyflwyno yn cadw at yr hyn a gafwyd gan yr Aelodau ac yn caniatáu i'r cwestiwn gael ei gyflwyno.

**4. Is-ddeddfwriaeth**

4.1 Rhoddodd y Pwyllgor ystyriaeth i bapurau BC320-01, BC321-01, BC323-01 a BC328-01 hyd BC332-01 a oedd yn rhoi cyngor ar y ffordd y dylid ymdrin â'r eitemau canlynol o is-ddeddfwriaeth ddrafft.

- Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) (Cymru) 2001 (BC320-01)

- Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (Cymru) 2001 (BC321-01)

- Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Cyfyngu'r Defnydd ar Beledi Plwm) (Cymru) 2001 (BC323-01)

- Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Gwasanaethau Deintyddol Cyffredinol) (Diwygio) (Rhif.3) (Cymru) 2001 (BC328-01)

- Rheoliadau Addysg (Cyraeddiadau Disgyblion Unigol) (Gwybodaeth) (Cymru) (Diwygio) 2002 (BC329-01)

- Gorchymyn Addysg (Y Cwricwlwm Cenedlaethol) (Asesu ar gyfer Cymraeg, Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth) (Cyfnod Allweddol 1) (Cymru) 2002 (BC330-01)

- Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Diwygio) (Rhif 3) 2001 (BC331-01) *Rheol Sefydlog 23*

- Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm y Lefelau o Waddod mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 3) 2001 (BC332-01) *Rheol Sefydlog 23*

<u>BC320-01, BC321-01 a BC323-01</u>

4.2 Cyfeiriodd y Dirprwy Lywydd at y llythyr oddi wrth Sue Essex, y Gweinidog dros yr Amgylchedd (BC338-01), a oedd yn egluro pam na chynhaliwyd arfarniadau rheoleiddiol ffurfiol ar y Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Fforymau Mynediad Lleol) a'r Rheoliadau Mynediad i Gefn Gwlad (Mapiau Drafft) (BC320-01 a BC321-01). Dywedodd bod y Gweinidog wedi cydnabod pryderon y Pwyllgor a bod y llythyr yn ddefnyddiol. Fodd bynnag, nododd nad oedd y ddyletswydd statudol ar y Cynulliad i lunio gorchymyn o reidrwydd yn golygu bod arfarniad rheoleiddiol yn anaddas. Dywedodd Paul Silk bod Swyddfa'r Cwnsler Cyffredinol wedi dosbarthu canllawiau diwygiedig ar arfarniadau rheoleiddiol i'r Gweinidogion a'u swyddogion. Croesawodd y Dirprwy Lywydd hyn a gofynnodd a ellid eu dosbarthu i'r Rheolwyr Busnes.
**Gweithredu: Ysgrifenyddiaeth**

4.3 Wrth ymateb i gwestiwn oddi wrth y Dirprwy Lywydd, dywedodd Marion Stapleton bod y cynnig eisoes ar waith i argymell ym mhob Memorandwm Esboniadol a yw’n briodol i bwyllgor pwnc ei ystyried ai peidio. Er hyn, roedd yn bosibl na fyddai’r Pwyllgor yn gweld effaith hyn ar unwaith.

4.4 Cytunodd y Pwyllgor ar yr argymhelliad y dylai’r cynigion drafft hyn ddilyn y weithdrefn safonol a dywedodd Aelodau’r Pwyllgor wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon peidio ag anfon y gorchmynion i bwyllgorau pwnc. **Yn sgil**

**hynny pennodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio’r gorchmynion hyn i bwyllgorau pwnc.**

BC328-01

4.5 Bu’r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad y dylai’r gorchymyn hwn ddilyn y weithdrefn gyflymach. Dywedodd Aelodau’r Pwyllgor wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon peidio ag anfon y gorchymyn drafft i bwyllgor pwnc. Dywedodd Jocelyn Davies bod ei grwp am gael trafodaeth fer yn ei gylch. **Yn sgil hynny, pennodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio’r gorchymyn i bwyllgor pwnc.**

BC329-01 a BC330-01

4.6 Cytunodd yr Aelodau ar yr argymhelliad y dylai’r gorchmynion drafft hyn ddilyn y weithdrefn safonol a dywedodd yr Aelodau wrth y Dirprwy Lywydd eu bod yn fodlon peidio ag anfon y gorchmynion i bwyllgorau pwnc. **Yn sgil hynny pennodd y Dirprwy Lywydd nad oedd angen cyfeirio’r gorchmynion hyn i bwyllgorau pwnc.**

BC331-01 a BC332-01

4.7 Dywedodd y Dirprwy Lywydd y dylid nodi’n glir ar y dalennau blaen yn unol â pha ran o Reol Sefydlog 23 yr oedd y gorchmynion yn cael eu gwneud. Dywedodd na chafodd Aelodau’r Cynulliad ddigon o amser i ystyried y gorchmynion am na chawsant eu rhoi ar y fewnrwyd yn ddigon buan. Gofynnodd a fyddai modd eu gohirio am wythnos. Dywedodd Marion Stapleton bod y gorchmynion wedi’u rhoi ar y fewnrwyd cyn gynted ag y’u derbyniwyd o’r Adran yn Whitehall. Ni fyddai’n bosibl i’r Cynulliad ohirio ystyried y gorchmynion oherwydd bod yn rhaid eu cyflwyno yn Senedd y DU am 21 diwrnod cyn iddynt gael eu gwneud. Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn deall bod gofyn i’r Cynulliad barchu rheolau San Steffan ond y dylid sylweddoli bod gan y Cynulliad ei weithdrefnau ei hun. Dywedodd Jocelyn Davies ei bod yn anodd deall yr eglurhad ar y ddalen flaen o effaith BC331-01. Cytunodd yr Aelodau a gofynnwyd i’r memoranda esboniadol gael eu hysgrifennu mewn iaith glir yn y dyfodol.

4.8 Bu’r Pwyllgor yn ystyried yr argymhelliad y dylai’r Cynulliad gymeradwyo’r gorchmynion hyn heb ddadl. Gofynnodd Jocelyn Davies am ddadl ar Reoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm y Lefelau o Waddod mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 3) 2001 (BC332-01). Dywedodd y Trefnydd ei fod yn fodlon cytuno â’r cais. Cytunodd yr Aelodau y dylai’r gorchymyn arall (BC331-01) ddilyn y weithdrefn a argymhellwyd.

**5. Cyngor i Aelodau ar weithdrefnau**

- Papur ar opsiynau am weithdrefn ar gyfer dadleuon brys (BC305-01)

5.1 Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod y papur hwn wedi’i ohirio er mwyn i grwpiau’r pleidiau ei ystyried a gofynnodd am sylwadau arno. Yn sgil

trafodaeth cytunodd y Pwyllgor mai'r ail opsiwn oedd orau ganddynt ac y dylid argymell yr opsiwn hwnnw i grwp Adolygu Gweithdrefnau'r Cynulliad. **Gweithredu: Yr Ysgrifenyddiaeth i gysylltu ag Ysgrifenyddiaeth y Grwp Adolygu Gweithdrefnau**

- Papur diwygiedig ar opsiwn arall ar gyfer trefniadau toriadau 2002 (BC337-01)

5.2 Cyflwynodd y Trefnydd y papur. Dywedodd bod yr argymhellion wedi codi o gyfarfod y Rheolwyr Busnes a'u bod hwy'n ymwybodol bod angen canfod ateb sy'n adlewyrchu'n dda ar y Cynulliad. Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod yn credu'n bersonol y byddai anawsterau'n codi o ddod yn ôl ar ôl Toriad yr Haf ac yna torri eto ymhen pythefnos. Yn bersonol roedd yn ffafrio patrwm tebyg i'r hyn a gafwyd eleni. Cytunodd y Pwyllgor i ohirio penderfynu hyd y cyfarfod nesaf i roi cyfle i'r Rheolwyr Busnes ymgynghori â'u grwpiau ar y dewis rhwng cynnig BC337-01 ac opsiwn cyntaf y papur blaenorol (BC306-01).

- Dyddiau cyflwyno ar gyfer y cyfarfodydd llawn ar ôl Toriad y Nadolig (BC333-01)

5.3 Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei bod yn bwysig penderfynu ar amserlen gyflwyno ar gyfer cwestiynau llafar 8, 10 a 15 Ionawr. Cytunodd y Pwyllgor mai'r opsiwn a fyddai orau ganddynt fyddai atal y Rheolau Sefydlog er mwyn cyflwyno'r cwestiynau llafar hyn yn gynt, a hynny yn ystod yr wythnos yn cychwyn ar 10 Rhagfyr. Gofynnodd i'r dyddiau cyflwyno fod mor hir â phosibl yn ystod yr wythnos honno. **Gweithredu: Y Swyddfa Gyflwyno i wneud y trefniadau angenrheidiol a pharatoi cynnig drafft i atal y rheolau sefydlog.**

## 6. Pwyllgorau

- Amserlen Pwyllgorau'r Gwanwyn (BC334-01)

6.1 Cyflwynodd Marie Knox bapur BC334-01 fel papur i'w nodi. Tynnodd sylw'r Aelodau at broblem a allai godi gan fod y Ceidwadwyr wedi newid aelodaeth y Pwyllgorau. Gallai'r gwrthdaro ar yr amserlen olygu y byddai pwyllgor pwnc yn gorfod cyfarfod ar brynhawn Iau pe bai'r Pwyllgor Cyfle Cyfartal a phwyllgorau sefydlog eraill yn parhau i gyfarfod ar fore Mercher. Er hyn, roedd newidiadau eraill i aelodaeth y pwyllgorau ar y gweill a byddai gofyn iddi ystyried y rhain cyn llunio amserlen bwyllgora ddiwygiedig. Cytunodd Aelodau y dylid gweithredu'r egwyddor gyffredinol bod pwyllgorau pwnc yn cwrdd ar ddydd Mercher a'r pwyllgorau sefydlog misol yn cyfarfod fel arfer ar ddydd Iau, pe bai pwyllgorau'n cael eu cynnal bob prynhawn dydd Iau.

## 7. Busnes ar y gweill

- Busnes yr wythnos hon (BC335-01)

7.1 Bu'r Pwyllgor yn ystyried papur BC335-01 yn rhoi manylion y busnes y cytunwyd arno ar gyfer y Cynulliad yr wythnos honno.

7.2 Dywedodd y Trefnydd y byddai nifer o gynigion ychwanegol yn cael eu hystyried y diwrnod hwnnw i ethol Aelodau i bwyllgorau.  Dywedodd bod y Prif Weinidog yn dal i ystyried a fyddai'n gwneud datganiad ar ddiswyddiadau Alcoa.  Dywedodd y Dirprwy Lywydd ei fod wedi gwrthod cais am gwestiwn brys ar y mater oherwydd nad oedd o'r farn ei fod yn bodloni'r meini prawf.  Er hyn, pe bai'r Prif Weinidog yn penderfynu peidio â gwneud datganiad, gellid ymestyn yr amser ar gyfer cwestiwn rhif 3 i'r Prif Weinidog (ynghylch creu swyddi) i ganiatáu cwestiynau atodol ar y pwnc.  Dywedodd y Trefnydd y byddai cynnig ychwanegol yn cael ei gyflwyno gan y Dirprwy Lywydd ddydd Iau 22 Tachwedd i gymeradwyo cyllideb Swyddfa'r Llywydd.

- <u>Datganiad Busnes Drafft (BC336-01)</u>

7.3 Bu'r Pwyllgor yn ystyried y Datganiad Busnes Drafft (BC336-01).

7.4 Dywedodd y Trefnydd nad oedd unrhyw newidiadau wedi'u cynnig i'r busnes ar 27 Tachwedd.  Ar ddydd Iau 29 Tachwedd byddai cynnig i gymeradwyo Rheoliadau Plaleiddiaid (Uchafswm y Lefelau o Waddod mewn Cnydau, Bwydydd a Phorthiant) (Cymru a Lloegr) (Diwygio) (Rhif 3) 2001 yn awr yn dilyn y weithdrefn safonol.  Ar ddydd Iau 4 Rhagfyr byddai cynnig ychwanegol i gymeradwyo Adroddiad Grant Arbennig Rhif 16A – *Local Planning Partnership and Participation of Children and Young People.*

7.5 Gofynnodd Jonathan Morgan i ystyriaeth gael ei rhoi i drafodaeth hwy ar Ddiwygiad Strwythurol yr NHS ar 27 Tachwedd.  Dywedodd mai hwn fyddai diwygiad strwythurol mwyaf yr NHS am 30 mlynedd ac roedd ei blaid am i o leiaf rhwng awr a hanner a dwy awr gael eu neilltuo ar gyfer y ddadl.  Dywedodd y Trefnydd mai amcan yn unig oedd yr amserau a'i fod yn gobeithio y gellid bodloni'r cais.

7.6 Gofynnodd y Dirprwy Lywydd i'r Trefnydd a oedd yn fodlon i David Lambert ystyried y memorandwm esboniadol a oedd yn cael ei baratoi ar gyfer y cynnig i ddirprwyo swyddogaethau'r Gorchymyn Consesiynau Teithio (Estyn yr Hawl i'w Cael) (Cymru) 2001.  Dywedodd y Gweinidog nad oedd yn gwrthwynebu hynny.  **Gweithredu: Marion Stapleton**

7.7 Dywedodd y Pwyllgor wrth y Trefnydd y dylai'i ddatganiad arfaethedig ar drefn busnes y Cynulliad ar gyfer yr wythnosau'n cychwyn ar ddydd Mawrth 27 Tachwedd, dydd Mawrth 4 Rhagfyr a dydd Mawrth 11 Rhagfyr fynd yn ei flaen yn unol â'r hyn y cytunwyd arno.

## <u>8.  Materion a gyfeiriwyd o'r Cyfarfod Llawn</u>

Dim

## <u>9.  Diwygio'r Rheolau Sefydlog</u>

Dim

## 10. Dyfarniadau'r Llywydd
Dim

## 11. Unrhyw fater arall

11.1 Dywedodd Jonathan Morgan bod y datganiad ar 15 Tachwedd 2001 ar ddiwygiadau'r NHS wedi para pymtheg munud. Gofynnodd am eglurhad ar hyd derbyniol datganiadau ac ar sut y dylid dosbarthu copïau i Aelodau. Dywedodd ei bod yn ymddangos bod copïau ar gael i Aelodau Llafur ac i rai Aelodau eraill, ond na chawsant eu dosbarthu i bawb. Dywedodd y Dirprwy Lywydd bod y Llywydd wedi dyfarnu na ddylai datganiadau fod yn hwy na 1,000 o eiriau neu ddeng munud. Gellid gwneud datganiad ysgrifenedig mwy manwl i gefnogi'r datganiad llafar pe bai angen. Dywedodd y Trefnydd bod y Cabinet yn ceisio sicrhau bod copïau o ddatganiadau ar gael i Reolwyr Busnes cyn gynted â phosibl cyn dechrau Cyfarfod Llawn yn unol â Phrotocol y Cabinet.

**YSGRIFENYDDIAETH Y SIAMBR**